PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 12 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Carter, Goddard, Kelloway a/ac Lent |

45 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Shaun Jenkins.

46 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

47 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

48 : CYNIGION DRAFFT CYLLIDEB 2018/19 A CHYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2020 – (ATODIAD A I DDILYN)

**Trosolwg Corfforaethol**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) ac Allan Evans (Rheolwr Gweithredol – Cyfrifyddiaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Weaver gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle dywedodd y bu'n anodd iawn pennu'r gyllideb hon. Cafwyd toriadau termau go iawn ac mae'r effaith net ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu, felly gwnaed peth adlinio i gydnabod y cynnydd o ran y galw a'r pwysau sy'n ein hwynebu. Rhoddwyd pwyslais ar y gwasanaethau craidd ac adeiladu ar y gwelliannau a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf. Ychwanegodd y Cynghorydd Weaver mai ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yw dau faes sydd wedi cael cynnydd yn eu cyllidebau. Ychwanegodd hefyd mai'r gobaith oedd y byddai'r aelodau'n croesawu'r warws cyfarpar ar y cyd a leolir yn y Smarthouse.

Rhoddodd Ian Allwood gyflwyniad i'r aelodau a thynnodd sylw at wybodaeth allweddol am drosolwg y setliad terfynol a'r ymgynghoriad, y gyllideb refeniw ddrafft, y rhagolwg tymor canolig a'r Rhaglen Gyfalaf Ddrafft.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Nododd yr aelodau yr arbedion oedd wedi'u marcio'n goch/oren a gofynnwyd pa mor realistig oedd cyflawni'r arbedion hyn a pha brosesau a ddilynwyd i wirio cadernid y cynigion arbedion. Esboniodd y swyddogion mai cyfarwyddwr sy'n cymeradwyo cynigion. Eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau y ceir diwydrwydd dyladwy i sicrhau eu bod yn gadarn a bod modd eu cyflawni. Ychwanegodd y swyddogion fod prosesau wedi cael eu gwella dros y blynyddoedd diwethaf i

wella'r diwydrwydd dyladwy ac erbyn hyn roedd cyfathrebu cyson rhwng gwasanaethau a swyddogion cyllid.

Nodwyd bod y risgiau a'r rhwystrau'n hysbys ar gyfer rhai cynigion a bod mesurau i liniaru'r rhain yn cael eu dangos cymaint â phosib. Mae Caerdydd am wella a newid gwasanaethau ar yr un pryd a gwneud arbedion. Bydd risg bob amser pan fo ffyrdd o weithio'n cael eu newid. Rhoddodd y swyddogion sicrwydd i'r aelodau fod y cyfarwyddwyr yn ymrwymedig i gyflawni'r arbedion.

- Nododd yr aelodau fod cyfraddau llog yn dechrau cynyddu a gofynnwyd pa mor fforddiadwy oedd y gyllideb ac a yw cyfraddau llog yn cael eu cynnwys yn y broses o fodelu ariannol. Nododd y swyddogion na allant ragfynegi'r sefyllfa ariannol yn y dyfodol ond y cynhaliwyd profion pwysau ar y gyllideb. Ychwanegodd y swyddogion hefyd y gall cynnydd mewn cyfraddau llog gael effaith gadarnhaol a negyddol i'r Cyngor. Wrth ystyried y Rhaglen Gyfalaf a syniadau sefydlog y trysorlys, roedd elfen sicrwydd o ran benthyca am nawr. Byddai heriau yn y rhai blynyddoedd nesaf petai angen buddsoddiad cyfalaf ychwanegol heb gael cyllid ychwanegol.

- Nododd yr aelodau y projectau mawr amrywiol yn y Rhaglen gyfalaf a gofynnwyd beth oedd goblygiadau'r rhain ar gyllidebau refeniw. Esboniodd y swyddogion fod elfen o gyfnewid yma: bydd 42% o arian benthyg ychwanegol i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf yn effeithio ar y Gyllideb Refeniw ond roedd angen gwella asedau'r cyngor; os na chaiff yr asedau hyn eu gwella, bydd angen gwario mwy arnynt a byddai'r ôl-groniad cynnal a chadw'n cynyddu. Gellir rheoli'r projectau mawr newydd sy'n gysylltiedig â benthyca ychwanegol o fewn y gyllideb ar hyn o bryd; elfen o flaenoriaeth ydyw sy'n mynd yn fwy anodd mewn cyfnodau mwy heriol.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o'r £8.4 miliwn ychwanegol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol; esboniodd yr Aelod Cabinet fod cynnydd net i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod pwysau galw a phwysau demograffig cydnabyddedig ar y gwasanaeth.

- Gofynnodd yr aelodau pa ganran o'r gyllideb refeniw sy'n daliadau llog ac fe'u hysbyswyd ei fod tua 7% o'r gyllideb.

**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion)**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Tony Young (Cyfarwyddwr - Gwasanaethau Cymdeithasol), Amanda Phillips (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Oedolion) a Leon Goddard (Swyddog Project) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Elsmore gan y Cadeirydd i wneud datganiad ac achubodd ar y cyfle hwn i atgoffa'r aelodau o gyd-destun Gwasanaethau Oedolion, gan esbonio'r boblogaeth a'r tueddiadau galw yn y dyfodol, gan gynnwys y bydd gwariant yr awdurdod lleol ar bobl hŷn bron yn dyblu erbyn 2035; cynnydd 88% yn y rhai dros 85 oed ac 1 o bob 3 o bobl dros 65 oed yn datblygu demensia. Dymunodd yr Aelod Cabinet nodi hefyd y byddai nifer y gofalwyr heb eu talu yn y ddinas yn codi i 57,000, gan gyfrannu at y pwysau anferthol ar y gwasanaethau.

Rhoddodd Tony Young gyflwyniad i'r aelodau am gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan dynnu sylw at wybodaeth allweddol megis trosolwg, dyraniadau ychwanegol, pwysau penodol cydnabyddedig, cynigion arbedion ar gyfer y gyfarwyddiaeth gyfan, gwasanaethau i oedolion a phlant, yr ymagwedd at heriau cyllidebol a'r rhagolwg ariannol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- O ran ailalluogi, nododd yr aelodau fanteision ariannol y defnydd o dechnoleg yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ond roeddent yn pryderu am y neges y byddai hyn yn ei chyfleu i bobl, yn benodol pobl ynysig, agored i niwed a allai fod yn pryderu am lai o ryngweithio dynol. Esboniodd y swyddogion y byddai'r defnydd o dechnoleg yn cyd-fynd â'r gwasanaeth yn hytrach na'i ddisodli; byddai'n ffordd o atgoffa pobl i gymryd meddyginiaeth ar y cyd â'u cynllun gofal a byddai'n helpu pobl sy'n dewis aros gartref. Roedd y swyddogion yn ystyried arwahanrwydd ar bob adeg. O ran arbedion, nodwyd bod 70% o bobl yn gadael y Tîm Ailalluogi Cymunedol heb unrhyw wasanaeth gan eu bod yn annibynnol. Petai hyn yn cael ei gymhwyso i'r gymuned gyfan, byddai llai o ddibyniaeth ar ofal. Byddai'r defnydd o dechnoleg yn cefnogi ailalluogi ac ni fyddai'n amharu ar ddyletswydd a chyfrifoldeb o ran diogelu.
  Gofynnodd yr aelodau a yw awdurdodau eraill wedi defnyddio technoleg newydd fel hyn ac a oedd hynny wedi bod yn llwyddiannus. Atebodd y swyddogion yn gadarnhaol fod llawer o awdurdodau'n rhoi cynnig ar wahanol bethau o ran ffyrdd newydd o weithio. Byddai Caerdydd yn ystyried hyn i gyd a phenderfynu'r hyn a fyddai'n gweithio orau i Gaerdydd.

- Gofynnodd yr aelodau sut caiff y llwyddiant o ran yr unigolyn ei werthuso a sut caiff y manteision lles eu mesur o'i gymharu â'r dull oedd yn cael ei ddefnyddio o'r blaen. Dywedodd y swyddogion eu bod eisoes yn adrodd am hyn trwy'r allbynnau yn y Tîm Ailalluogi Cymunedol (TAC). Nododd y Cyfarwyddwr fod darparwyr bellach yn awyddus i ymgymryd ag ailalluogi ac y gellid annog hyn trwy'r broses gontractol, gan wahanu'r TAC o'r broses rhyddhau o'r ysbyty.

  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet mai'r strategaeth ar hyn o bryd oedd adlunio sut rydym yn gwneud pethau yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cafwyd gwelliant nodedig mewn cysylltiad ag iechyd dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa gadarnhaol wedi cyflawni'r ffigurau Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal isaf mewn 12 mlynedd, gan sicrhau bod unigolion yn cael yr hyn sy'n iawn iddyn nhw.

- Gofynnodd yr aelodau pam roedd y ffigurau Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal mor isel ar hyn o bryd ac fe'u hysbyswyd bod sawl ffactor yn gyfrifol am hyn, gan gynnwys y TAC a'r farchnad gofal cartref gadarnhaol a bywiog iawn ar hyn o bryd.

- Nododd yr aelodau fod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys 1 targed ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Mae sawl targed wedi'i restru fel 'Dim targed wedi'i bennu' a gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â hyn. Atebodd y swyddogion fod llawer o fesurau newydd wedi cael eu cyflwyno ers i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Lles) ddod i rym. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data gan mai dyma oedd blwyddyn gyntaf y data ac nid oedd e'n cael ei

ystyried yn ddibynadwy. Byddai data'n barod i'w ddefnyddio ymhen rhyw 2 flynedd; mae mesurau lleol ar waith o hyd a gellir craffu ar y rhain fel arfer.

- Nododd yr aelodau mai'r cynnydd yn ffioedd defnyddwyr oedd yr uchaf ar raddfa argymhellion Llywodraeth Cymru a chyfeiriwyd at effaith bosib hyn ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Atebodd y swyddogion fod y cynnydd yn cael ei gyflwyno'n raddol a'i fod yn unol â'r cynnydd trothwy ar gyfer arbedion. Roedd yr aelodau'n pryderu dros deuluoedd oedd mewn sefyllfa ariannol anodd, ond fe'u hysbyswyd bod Llywodraeth Cymru wedi galluogi'r Cyngor i gymryd y mesur ac na all fforddio peidio â'i gymryd neu byddai angen torri arian yn rhywle arall. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth i gynifer o bobl â phosib ar draws y ddinas.

**Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid**

Croesawyd y Cynghorydd Susan Elsmore (Aelod Cabinet – Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles) a'r Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod Cabinet – Tai a Chymunedau), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid), Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Tai a Chymunedau) a Nick Blake (Rheolwr Cymorth Busnes) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Elsmore gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle soniodd hi eto am y newidiadau demograffig a ddisgwylir dros y blynyddoedd nesaf o ran pobl hŷn, gan nodi y byddai Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yn cynyddu i ddarparu ar gyfer hyn a'i bod yn bwysig eu bod yn darparu gwasanaethau rhagorol. Soniwyd hefyd am waith gwych ar draws y bartneriaeth gyda Bro Morgannwg a chydweithwyr iechyd. Cafodd yr aelodau eu hannog gan yr Aelod Cabinet i ymweld â'r Smarthouse a warws y Gwasanaeth Cyfarpar ar y Cyd a oedd bellach yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael cyfarpar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf. Roedd yn dda gan yr Aelod Cabinet ddweud bod y Gwasanaeth Pryd ar Glud yn cynyddu a bod gobaith y byddai hwn yn ariannu ei hun yn y dyfodol; roedd projectau rhyng-genedlaethol hefyd yn cynyddu.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thorne gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle dywedodd ei bod hi'n falch bod y Cynllun Corfforaethol a'r gyllideb eleni'n canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach y gwasanaethau hynny sy'n helpu' rhai sydd fwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd.

Un o themâu allweddol Uchelgais Prifddinas yw sut i sicrhau bod pawb yn elwa o dwf Caerdydd a chefnogi pobl i ddianc o dlodi.
Mae rhaglen yr hybiau cymunedol, a fydd yn sefydlu hwb newydd yn Llaneirwg eleni, yn darparu gwasanaethau lleol i roi cymorth a chefnogaeth ymarferol i'r rhai mae eu hangen arnynt. Bydd gwaith integreiddio gwasanaethau cymorth cyflogaeth yn dechrau ym mis Ebrill ac roedd y Cynghorydd Thorne yn falch ein bod yn cynyddu cyngor a chymorth i liniaru effaith Credyd Cynhwysol.
Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ymdrin ag achosion cysgu ar y stryd. Mae cydlynu ymyriadau i fynd i'r afael yn llwyddiannus â mater nad yw, yn ei hanfod, yn ymwneud ag argaeledd llety yn her fawr. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Thorne yn fodlon ar yr ymagwedd bartneriaeth oedd yn datblygu a chafodd yr aelodau eu hannog ganddi i gefnogi'r ymgyrch CAERedigrwydd a fydd yn lansio cyn bo hir.
I helpu gyda'r broblem ehangach o ran tai yng Nghaerdydd, roedd yn dda gan y Cynghorydd Thorne allu dweud wrth yr aelodau ei bod hi wedi gallu estyn y targed ar gyfer cartrefi cyngor newydd a'i bod yn bwriadu darparu 2,000 o eiddo newydd, y

caiff o leiaf 1,000 ohonynt eu cwblhau dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r cynnydd hwn yn nifer y cartrefi cyngor heb gynsail ac nid oes unrhyw awdurdod lleol arall yn cynnig yr un nifer.

Ychwanegodd y Cynghorydd Thorne fod y Rhaglen Gyfalaf yn adlewyrchu'r un flaenoriaeth i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn y ddinas. Mae arian ar gael i rai projectau cwbl hanfodol, gan amrywio o'r Ganolfan Cam-drin Domestig aml-asiantaeth a Hwb Ieuenctid Pafiliwn Butetown i ailgyflwyno'r Cynllun Adnewyddu Cymdogaethau.

Rhoddodd Sarah McGill gyflwyniad i'r aelodau gan dynnu sylw at faterion allweddol ynghylch camau gweithredu'r Cynllun Corfforaethol, mesurau perfformiad y Cynllun Corfforaethol, cynigion arbedion ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles, Tai a Chymunedau, y Rhaglen Gyfalaf, cynyddu rhenti, cynigion pwysau ariannol a gwydnwch ariannol.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau::

- O ran cynnydd mewn rhenti, gofynnodd yr aelodau at ba ddiben y defnyddir yr arian hwn fel arfer. Atebodd y swyddogion fod yr arian o gynnydd mewn rhenti'n cael ei fuddsoddi mewn ystod lawn o wasanaethau sy'n ofynnol trwy gynllun busnes yr ARhC. Ychydig o flynyddoedd yn ôl roedd yn cael ei ddefnyddio i geisio cael ac yna cynnal Safon Ansawdd Tai Cymru, ac yn fwy diweddar ar gyfer hybiau a phrojectau adeiladu newydd. Byddai'r manylion llawn yng nghynllun busnes yr ARhC a fydd yn dod gerbon y pwyllgor ym mis Mawrth.

- Gofynnodd yr aelodau am leoliad y datblygiadau tai cyngor newydd arfaethedig ac fe'u hysbyswyd bod rhyw 40 safle ar draws y ddinas a bod eu lleoliad yn weddol hysbys. Ar hyn o bryd roedd y swyddogion yn ystyried dichonoldeb y safleoedd ond byddent ar draws y ddinas ac mewn cymunedau cymysg.

- Gofynnodd yr aelodau pa ganran o'r ARhC a oedd yn cael ei gwario i dalu llog a pha mor drylwyr oedd yr asesiadau sydd wedi cael eu cynnal. Nododd y swyddogion mai tai oedd flaenaf o'r holl gyfleoedd buddsoddi posib sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â chronfeydd pensiwn, oherwydd cânt eu hystyried yn fuddsoddiad diogel. Ychwanegodd y swyddogion fod £3m yn llai mewn taliadau llog a bod pob penderfyniad a wneir o ran buddsoddi'n destun asesiad dichonoldeb trylwyr. Ychwanegwyd bod y Cyngor yn caniatáu 40 mlynedd i gael enillion ar fuddsoddiad yn y rhan fwyaf o achosion.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tai newydd ac fe'u hysbyswyd bod Grant Tai Arloesol ar gael; bod hefyd lwfans atgyweirio sylweddol o £10 miliwn i gynnal a chadw'r stoc presennol; y byddai'r incwm o renti yn y dyfodol yn galluogi adeiladu tai newydd; ei fod yn benderfyniad anodd i gynyddu rhenti ond byddai'r cynnydd yn galluogi adeilad 450 o dai newydd; y byddai'r rhenti ychwanegol o'r rhain yn galluogi adeiladu 450 yn rhagor; a bod angen dybryd am gartrefi newydd yn y ddinas.

- Nododd yr aelodau y byddai cartrefi newydd ag 1 a 2 ystafell wely yn cael eu hadeiladu ac roeddent o'r farn bod galw am gartrefi â 3 a 4 ystafell wely hefyd.

Gofynnwyd a fyddai digon o’r rhain yn cael eu hadeiladu. Esboniodd y swyddogion y byddant yn adeiladu tai mwy lle bo modd, eu bod hefyd yn prynu cartrefi mwy yn ôl o’r farchnad a’u bod yn annog pobl hŷn i symud i gartrefi llai gan gynnig cymorth i symud.

- Gofynnodd yr aelodau pa gymorth oedd yn cael ei gynnig i bobl i ymdopi â rhenti cynyddol a chyflwyniad Credyd Cynhwysol yng Nghaerdydd. Esboniodd y swyddogion y byddai cyflwyniad Credyd Cynhwysol yn darparu ar gyfer y rhent fel sy’n digwydd ar hyn o bryd. Yr hyn sy’n peri pryder yw sut mae budd-daliadau’n cael eu talu gan fod popeth yn cael ei wneud ar-lein. Mae 96 o gyfrifiaduron ychwanegol wedi cael eu gosod ar draws y ddinas. Caiff gwasanaethau cynghori ar gael ar draws y ddinas a bydd cronfa galedi ar gael yn ogystal â chymorth i bobl wrth iddynt symud i gyflogaeth. O ran y weithdrefn ôl-ddyledion, byddai ymyrraeth yn digwydd yn gynt yn y broses.

- Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd y byddai cymorth a gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd gwahanol o ran Credyd Cynhwysol. Nododd y swyddogion fod amrywiaeth anferth o ieithoedd yn cael eu siarad yn yr hybiau a bod cymorth llafar ar gael mewn rhyw 20 iaith. Os oes anghenion iaith penodol ar gymuned, byddai gwybodaeth a chyngor yn cael eu cyfieithu yn yr ardal honno.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y £13 miliwn o fudd-dal wythnosol ychwanegol a nodwyd i gleientiaid Tîm Cynghori Canol y Ddinas ac yna at ddileu dwy swydd Swyddog Budd-daliadau wag er mwyn arbed £60k, a gofynnwyd sut roedd y ddau’n cydberthyn i’w gilydd. Esboniodd y swyddogion fod y swyddi i’w dileu yn is-adran weinyddol Budd-dal Tai gan na fyddai angen y rhain mwyach yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol.

- Cyfeiriodd yr aelodau at yr ymgyrch CAERedigrwydd a gofynnwyd a fyddai siopau’n hysbysebu’r ymgyrch trwy osod posteri yn y ffenestri sy’n rhoi cyngor i bobl sydd am gyfrannu rhywbeth. Esboniodd yr Aelod Cabinet y byddai cam 2 CAERedigrwydd yn cael ei lansio’n fuan. Byddai hwn yn galluogi pobl i sweipio eu cardiau banc mewn mannau amrywiol yng nghanol y ddinas i roi arian i’r gronfa. Mae rhai siopau eisoes yn arddangos posteri a byddai hyn yn cael ei annog ymhellach. Nodwyd mai lansiad ‘ysgafn’ oedd y lansiad cychwynnol er mwyn gweld sut byddai pobl yn ymateb i’r ymgyrch, ac roedd wedi cael derbyniad da. Roedd yr aelodau’n ystyried y byddai’n ddefnyddiol cynnal astudiaeth achos i nodi sut roedd y gronfa wedi helpu pobl.

- Roedd yr aelodau am wybod lle roedd yr arian a roddir yn cael ei gadw. Esboniwyd ei fod yn cael ei gadw gan gronfa ac nid y Cyngor. Wedyn mae’r arian yn mynd i helpu pobl yn uniongyrchol.

- Roedd yr aelodau’n ystyried ei fod yn chwa o awyr iach i weld Cynllun Corfforaethol â chysylltiadau clir i’r Polisi Lles. Cyfeiriodd yr aelodau at Cyngor ar Bopeth a’r gostyngiad graddol yn ei gyllid a gofynnwyd a oeddent wedi gallu dod o hyd i’r arian hwn o rywle arall i gynnal ei wasanaethau.

- Atebodd y swyddogion bod hyn wedi digwydd. Roedd yr aelodau am gael mwy o wybodaeth am y ddarpariaeth i bobl ifanc, gan nodi Pafiliwn Butetown a

gofynnwyd lle byddai'r ddarpariaeth arall yn cael ei lleoli. Esboniodd y swyddogion y byddai yng nghanol y ddinas, gan ymgorffori adeilad Grassroots yn Heol Charles, y gwasanaeth ar y cyd â Gwasanaethau Plant a Llamau sydd hefyd yn Heol Charles, gan eu cyfuno ac ychwanegu gwasanaethau tai, plant, iechyd a'r Cyngor i Mewn i Waith i ddarparu gwasanaeth cyflawn i ganol y ddinas.

- Nododd yr aelodau yr arferid cymryd rhent tenantiaid y Cyngor yn uniongyrchol o'u budd-daliadau a gofynnwyd a fyddai hyn yn parhau i ddigwydd. Nododd swyddogion fod Budd-dal Tai'n mynd yn uniongyrchol i'r cyfrif Tai ar hyn o bryd ac mae'n rhaid gwneud cais am unrhyw ôl-ddyledion. Bydd Credyd Cynhwysol yn newid hyn a bydd y budd-dal yn mynd yn uniongyrchol i'r unigolyn sydd wedyn yn talu'r rhent. Unwaith eto, bydd rhaid gwneud cais am unrhyw ôl-ddyledion.

- Roedd yr aelodau'n falch o weld nad oedd gostyngiad yn y cyllidebau ar gyfer camddefnyddio alcohol a chyffuriau.

- Nododd yr aelodau eu bod wedi gweld rhestri dros y blynyddoedd o sefydliadau yr oedd eu grantiau'n cael eu lleihau. Gofynnodd yr aelodau am y sefyllfa eleni ac esboniodd y swyddogion nad oedd unrhyw ostyngiadau i'r grantiau eleni.

- Nododd yr Aelod Cabinet ei bod yn debygol mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor Craffu i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a diolchodd iddo am ei waith caled, ei arweinyddiaeth a phopeth mae wedi'i gyflawni.
- Diolchwyd hefyd i'r swyddogion cyllid a swyddogion eraill am eu holl waith caled wrth lunio'r gyllideb hon.

**Cyfarwyddiaeth Perfformiad a Phartneriaethau**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (Aelod Cabinet - Tai a Chymunedau), Joe Reay, (Pennaeth Perfformiad) a Stephanie Kendrick-Doyle (Rheolwr Diogelwch Cymunedol) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thorne gan y Cadeirydd i wneud datganiad lle amlinellodd y canlynol:

*Adolygu a diwygio trefniadau llywodraethu a chyflawni'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a rennir erbyn mis Hydref 2018.*

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn adolygu ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys swyddogaeth byrddau rhaglenni sy'n gyfrifol am reoli gweithrediadau meysydd gwaith strategol. Mae Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel a Chydlynol yn cydlynu rheolaeth diogelwch cymunedol o ddydd i ddydd. Mae trefniadau aelodaeth a chyflawni'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer y bwrdd hwn ac mae cylch gorchwyl drafft yn cael ei drafod.

Disgwylir y caiff aelodaeth y bwrdd rhaglen aml-asiantaeth newydd ei symleiddio ac yn cynnwys digon o uwch swyddogion er mwyn sicrhau y gellir cydlynu adnoddau ar draws y bartneriaeth er mwyn ceisio cyflawni'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u nodi. Yr un mor bwysig yw hi bod y bwrdd yn gallu cael hyd i adnoddau'n gyflym er mwyn ymateb i broblemau newydd a datblygol megis pryderon diweddar am nifer y

bobl sy'n cysgu ar y stryd, lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol cynyddol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chardota ymosodol yng nghanol y ddinas.

Mae gweithdy yn yr arfaeth ar gyfer y gwanwyn er mwyn lansio'r bwrdd newydd a fydd yn ystyried gloywi blaenoriaethau, adolygu rôl a swyddogaethau grwpiau cysylltiedig a datblygu set ddata gadarn i sicrhau bod gennym ymagwedd at ddarparu gwasanaethau diogelwch cymunedol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

*Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn y ddinas trwy adolygu'r ffactorau risg, gyda phwyslais ar gefnogi pobl ifanc.*
O ganlyniad i bryderon am ddelio cyffuriau yn Grangetown a Butetown, mae ymchwiliad ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion wedi cael ei lansio. Bydd yr ymchwiliad hwn yn argymell ymagwedd dinas gyfan er mwyn atal pobl ifanc rhag dechrau delio cyffuriau. Dros y tri mis diwethaf mae'r pwyllgor wedi cwrdd ag amrywiaeth eang o ymarferwyr o sefydliadau statudol a thrydydd sector i glywed tystiolaeth. Hefyd fel rhan o'r ymchwiliad bwriedir ymgynghori â phobl ifanc i geisio eu barn am beth yw'r ffactorau sy'n denu pobl ifanc i ddelio. Cynhelir ymarfer tebyg gydag oedolion, er mwyn sicrhau ein bod yn deall effaith delio cyffuriau ar ardaloedd a'r cymorth sy'n angenrheidiol i gymunedau weithio gyda ni i fynd i'r afael â'r broblem. Disgwylir i'r pwyllgor gyflwyno ei ganfyddiadau ym mis Ebrill 2018.

*Cyflawni Strategaeth Economi'r Nos - gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gan gysylltu â'r Pwyllgor Craffu Economi a Diwylliant)*
Creu Economi'r Nos sy'n Ddiogel a Chroesawgar Cymeradwywyd ein cynllun ar gyfer 2017-2022 gan y Cabinet a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r cynllun yn amlinellu sut bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn cydweithio i sicrhau bod economi nos y ddinas yn ddiogel ac yn groesawgar.

Cafodd y strategaeth ei datblygu mewn ymgynghoriad ag amrywiaeth o bartneriaid o bob sector, gan gynnwys For Cardiff (Ardal Gwella Busnes y ddinas) a'r Fforwm Trwyddedigion. Bydd y cynllun yn cyd-fynd â nifer o fentrau allweddol eraill megis strategaeth gerddoriaeth y ddinas.

Mae gan y strategaeth dri chynllun gweithredu sy'n cael eu cydlynu a'u monitro gan Grŵp Llywio Economi'r Nos. Bydd y Bwrdd Rhaglen Diogelwch Cymunedol newydd yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gamau gweithredu'n gwneud cynnydd da a bod unrhyw rwystrau i gyflawni'r rhain yn cael eu goresgyn.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Gofynnodd yr aelodau a oedd arian ar gael i barhau â'r Gwasanaeth Marsialiaid Tacsis. Hysbyswyd yr aelodau bod hyn yn rhan o'r strategaeth. Roedd y cyllid ar gyfer y gwasanaeth wedi newid. Nid oedd yr un lefel o gyllid ar gael ond roedd y Cyngor am gadw'r gwasanaeth ac roedd yn gweithio gyda For Cardiff i drafod trefniadau cyflogaeth a chydariannu'r hyn sy'n cael ei ystyried yn wasanaeth hanfodol ac a fyddai'n rhan o economi'r nos yn y dyfodol.

- Roedd yr aelodau'n falch o glywed y byddai'r gwasanaeth yn parhau a gofynnwyd i'r swyddogion warantu na fyddai bwlch mewn gwasanaethau tra

oedd y trefniadau'n cael eu trafod. Sicrhaodd y swyddogion fod manylion y cynllun gyda'r Tîm Datblygu Economaidd a bod cynllun cadarn yn ei le i sicrhau na fyddai blwch mewn gwasanaethau. Byddai'r broses drosglwyddo yn ddi-dor.

- Nododd yr aelodau nad oedd cwmpas yr ymchwiliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mor eang â mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau yn y ddinas. Cytunodd yr Aelod Cabinet fod hynny'n wir yn anffodus. Y cwmpas oedd atal pobl ifanc rhag dechrau delio cyffuriau.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 49 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yw 14 Mawrth 2018 am 4.30pm.